

Cyfarfod

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD

Dyddiad ac Amser

9.30 y.b., DYDD GWENER, 3YDD HYDREF, 2025

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Am fynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni

Pwynt Cyswllt

Jasmine Jones

01286 679667

jasminejones@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Deadline(pubagenda))

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD

Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

Gary Pritchard	Cyngor Sir Ynys Môn
Nia Jeffreys	Cyngor Gwynedd
Charlie McCoubrey	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Jason McLellan	Cyngor Sir Ddinbych
Dave Hughes Mark	Cyngor Sir y Fflint
Pritchard	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Aelodau Cyfetholedig – Heb bleidlais

Edmund Burke	Prifysgol Bangor
Yr Athro Joe Yates	Prifysgol Wrecsam
Yana Williams	Coleg Cambria
Aled Jones-Griffith	Grŵp Llandrillo Menai
David Roberts	Cadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
Edgar Wyn Owen	Parc Cenedlaethol Eryri

Prif Weithredwyr Cynghorau Cyfansoddol

Dylan Williams	Cyngor Sir Ynys Môn
Dafydd Gibabrd	Cyngor Gwynedd
Rhun ap Gareth	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Graham Boase	Cyngor Sir Ddinbych
Neal Cockerton	Cyngor Sir y Fflint
Alwyn Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Swyddogion yn bresennol

Alwen Williams	Prif Weithredwr y CBC / Cyfarwyddwr Portffolio
Iwan Evans	Swyddog Monitro
Claire Incledon	Dirprwy Monitro
Dewi Morgan	Prif Swyddog Cyllid
Hedd Vaughan-Evans	Pennaeth Gweithrediadau
Nia Medi Williams	Uwch Swyddog Gweithredol

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellr eu hystyried.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

5 - 13

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2025 fel rhai cywir.

5. SEFYLLFA REFENIW 2025/26 – ADOLYGIAD DIWEDD 14 - 20 GORFFENNAF 2025

Dewi Morgan and Sian Pugh i gyflwyno'r adroddiad.

6. ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISG CHWARTER 1 2025/26

21 - 50

Hedd Vaughan-Evans i gyflwyno'r adroddiad.

7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny)

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn a materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cyngroau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a'r Gytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau . Am y rhesymau yma rwy'n fodlon fod y mater yn gaeedig er y budd cyhoeddus.

8. PENODI YMGYNGHORWYR ANWEITHREDOL

Alwen Williams (Prif Weithredwr) i gyflwyno'r adroddiad.

9. CYN YSBYTY GOGLEDD CYMRU – CAIS AM NEWID

David Mathews i gyflwyno'r adroddiad.

10. ACHOS FUSNES AMLINELLLOL PROSIECT PRINCE

Elli Hughes i gyflwyno'r adroddiad.

11. PROSIECT GWEITHGYNHYRCHU A GALLU BUSNES CYMDEITHAS 5.0 – ACHOS CYFIAWNHAD BUSNES A MWY (BJC+)

Elli Hughes i gyflwyno'r adroddiad.

12. PROSIECT SAFLEOEDD AC ADEILADAU GOGLEDD YNYS MÔN – ACHOS CYFIAWNHAD BUSNES+

David Mathews i gyflwyno'r adroddiad.

13. PROSIECT PORTH Y PORTHLADD RHYDD - ACHOS CYFIAWNHAD BUSNES+

David Mathews i gyflwyno'r adroddiad.

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD 11/07/2025

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais - Y Cynghorwyr:- Carwyn Elias Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Menna Trenholme (Cyngor Gwynedd), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint), Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych) a Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

Aelodau Cyfetholedig (Heb Bleidlais) – Paul Spencer (Prifysgol Bangor), David Roberts (Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol), Y Cyngorydd Edgar Wyn Owen (Parc Cenedlaethol Eryri) a Gwenllian Roberts (Grŵp Llandrillo Menai).

Prif Swyddogion – Sioned Williams (Cyngor Gwynedd), Rhun ap Iarll (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych) ac Alwyn Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

Awdurdod Lletya – Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol), Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Cynaliadwyedd a Datblygiadau), Sara Jane Jones (Uwch Gyfrifydd) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Uchelgais Gogledd Cymru - Alwen Williams (Prif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd), Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau), David Hole (Rheolwr Rhaglen Gweithredu), Eili Hughes (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf), Stuart Whitfield (Rheolwr Rhaglen Ddigidol), David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo) a Nia Medi Williams (Rheolwr Adnoddau a Gweithrediadau).

Sylwedyddion – Dewi Williams a Bryn Richards (Llywodraeth Cymru) a John Hawkins (Llywodraeth y DU)

Eraill yn bresennol:

Eitem 14 Andrew Hudson (Cyfarwyddwr, Zip World) a Lucy Dean (QUAD Consultancy)

1. ETHOL CADEIRYDD

Penderfynwyd ethol y Cyngorydd Mark Pritchard yn Gadeirydd ar gyfer 2025/26.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Penderfynwyd ethol y Cyngorydd Charlie McCoubrey yn Is-gadeirydd ar gyfer 2025/26.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

- Y Cyngorydd Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn) gyda'r Cyngorydd Carwyn Elias Jones yn dirprwyo

- Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd) gyda'r Cynghorydd Menna Trenholme yn dirprwyo
- Edmund Burke (Prifysgol Bangor) gyda Paul Spencer yn dirprwyo
- Yana Williams (Coleg Cambria).
- Aled Jones-Griffith (Grŵp Llandrillo Menai) gyda Gwenllian Roberts yn dirprwyo.
- Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)
- Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd) gyda Sioned Williams yn dirprwyo
- Wendy Boddington (Sylwedydd Llywodraeth Cymru) gyda Dewi Williams a Bryn Richards yn dirprwyo
- Gareth Ashman (Sylwedydd Llywodraeth y DU) gyda John Hawkins yn dirprwyo

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiadau o fuddiant personol gan y Cynghorydd Carwyn Elias Jones a Gwenllian Roberts ar gyfer Eitem 11 gan eu bod yn gyflogedig gan Grŵp Llandrillo Menai. Nodwyd ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a bu iddynt adael y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

5. MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw faterion bryd.

6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 16 Mai 2025 fel rhai cywir.

7. PROSIECTAU TRAFNIDIAETH YN Y CYNLLUN TWF

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Gweithrediadau.

PENDERFYNIAD

- 1. Cytuno ar yr argymhelliad a'r ffordd ymlaen sy'n cael ei ffafrio - Rhaglen Tir ac Eiddo Diwygiedig (Opsion 2) gan nodi y byddai yn fater i'r Is-bwyllgor benderfynu ar y prosiectau fydd yn cael eu blaenoriaethu a chymeradwyaeth ariannu Cynllun Twf.**
- 2. Gofyn bod y Cyfarwyddwr Portffolio yn cychwyn ar y broses newid i gynnwys yr elfennau hyn yn ffurfiol yn y Rhaglen Tir ac Eiddo.**

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ym mis Mawrth 2025, lansiodd Uchelgais Gogledd Cymru broses 'Mynegi Diddordeb' i ddethol prosiectau ar gyfer y Rhestr Wrth Gefn newydd a fyddai'n medru cyflwyno achosion busnes ar gyfer cyllid yn y dyfodol. Un o'r meini prawf a osodwyd oedd bod angen i brosiectau fod o fewn sgôp y pum rhaglen presennol y Cynllun Twf – Cysylltedd Digidol, Ynni Carbon Isel, Tir ac Eiddo, Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel a Bwyd-amaeth a Thwristiaeth.

O'r 27 Mynegiant o Ddiddordeb a gyflwynwyd, roedd pedwar yn cael eu hystyried fel rhai oedd y tu allan i sgôp y Cynllun Twf. Roedd un o'r rhain yn brosiect a oedd yn seiliedig ar refeniw ac roedd y tri arall yn brosiectau trafndiaeth yn bennaf. Nodwyd y cyflwynwyd dau

gan Lywodraeth Cymru ac un gan Gyngor Gwynedd. Dim ond un o'r prosiectau, 'Padeswood', oedd yn cwrdd â'r trothwy sgorio i gael ei ystyried i'w gynnwys ar y rhestr wrth gefn; fodd bynnag, roedd yr adroddiad i'r is-bwyllgor yn nodi'n glir y byddai hyn yn destun penderfyniad ar wahân ar gynnwys prosiectau trafndiaeth yn y Cynllun Twf.

Yn yr Is-bwyllgor Llesiant Economaidd ym mis Mai, cytunwyd bod:

- a) yr Is-bwyllgor yn cytuno i gychwyn proses i asesu ac adolygu'r sgôp a'r achos ar gyfer ymestyn y Cynllun Twf presennol i gynnwys prosiectau trafndiaeth.
- b) yr Is-bwyllgor yn comisiynu'r Cyfarwyddwr Portffolio i baratoi adroddiad opsiynau manwl mewn ymgynghoriad â Llywodraethau Cymru a'r DU a swyddogion y Cyngorau Cyfansoddol a Phartneriaid Addysg.
- c) yr adroddiad opsiynau yn cael ei gyflwyno i'r Is-bwyllgor gyda'r bwriad o bennu p'un a ddylid cychwyn y broses newid ffurfiol i sicrhau cytundeb ar gyfer y Cynllun Twf estynedig i gynnwys prosiectau Trafndiaeth.

TRAFODAETH

Atgoffwyd bod yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno yn dilyn cais gan y bwrdd yn dilyn y cyfarfod diwethaf er mwyn gallu penderfynu a oes angen ystyried cychwyn proses newid ffurfiol er mwyn ymestyn y Cynllun Twf i gynnwys prosiectau sydd ag elfennau Trafndiaeth ai peidio.

Eglurwyd os byddai prosiect 'Padeswood' yn cael ei gymeradwyo ar y Rhestr Wrth Gefn, byddai hyn yn galluogi'r posibilrwydd o ychwanegu mwy o gynlluniau ar y rhestr wrth gefn yn y dyfodol, os ydynt yn cyrraedd gofynion y Cynllun Twf. Nodwyd mai dyma'r unig gynllun a oedd yn cyrraedd y trothwyon sgorio yn dilyn proses Mynegi Diddordeb i fod ar y Rhestr Wrth Gefn a gynhaliwyd gan Uchelgais Gogledd Cymru ym mis Mawrth 2025.

Manylwyd ar y cefndir ac ystyriaethau perthnasol sydd wedi cael eu cyflawni cyn cyflwyno'r adroddiad hwn, gan nodi bod sgôp ehangach o raglenni wedi cael eu hystyried wrth gysyniadau'r Cynllun Twf yn wreiddiol, cyn penderfynu ar y pum rhaglen sydd eisoes yn weithredol (Cysylltedd Digidol, Ynni Carbon Isel, Tir ac Eiddo, Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel a Bwyd-amaeth a Thwristiaeth). Eglurwyd mai dim ond un prosiect a oedd yn cynnwys agweddau Trafndiaeth oedd yn cael ei ystyried wrth drafod Penawdau Telerau cytundeb y Cynllun Twf yn 2019 a bu i'r prosiect hwnnw gael ei weithredu o fewn y rhaglen Ynni Carbon Isel gan ddiddymu'r angen am sefydlu Rhaglen Trafndiaeth Strategol o fewn y Cynllun Twf. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod Trafndiaeth yn ogystal â datblygu sgiliau a chyflogadwyedd yn parhau i fod yn feysydd allweddol.

Tynnwyd sylw bod yr Is-bwyllgor Lles Economaidd wedi gwneud cais yn ystod eu cyfarfod ym mis Mai 2025 bod asesiad trylwyr o wahanol opsiynau sydd ar gael er mwyn gallu cyflwyno prosiectau sydd ag agweddau Trafndiaeth o fewn y Cynllun Twf. Nodwyd bod tri opsiwn wedi derbyn ystyriaeth gan y Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO), gan ymhelaethu arnynt fel a ganlyn:

- **Opsiwn 1: Rhaglen Trafndiaeth Newydd** - Nodwyd y golygai hyn byddai Rhaglen newydd yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r Cynllun Twf. Eglurwyd bod yr opsiwn hwn wedi cael ei ddiystyru oherwydd bod angen cyllidebau swmpus i'w wireddu ac ni fyddai'n ymarferol i'w weithredu o fewn y cyllidebau sydd ar gael.
- **Opsiwn 2: Rhaglen Tir ac Eiddo Ddiwygiedig** - Ystyriwyd addasu geiriad y rhaglen hon er mwyn amlygu y gall gynnwys prosiectau sydd ag agweddau seilwaith trafndiaeth ar safleoedd prosiectau ac oddi ar y safleoedd pan yn gysylltiedig i ddatblygiadau.

Nodwyd bod addasu'r Rhaglen i gynnwys yr eglurder hwn yn synhwyrol a chyraeddadwy.

- **Opsiwn 3: Dim newid** - Eglurwyd mai dyma'r opsiwn a fyddai wedi cael y lleiaf o effaith a chadarnhawyd bod yr opsiwn hwn wedi cael ei ddiystyru oherwydd y byddai'n golygu bod y Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi colli cyfle i ariannu prosiectau sydd yn gallu cyfrannu i dargedau'r Cynllun Twf.

Cadarnhawyd bod dau opsiwn wedi cael eu diystyru a bod argymhelliad yn cael ei gyflwyno i'r aelodau eu bod yn mabwysiadu Opsiwn 2 - Rhaglen Tir ac Eiddo Diwygiedig. Adroddwyd bod cyflwyno'r addasiad hwn yn unol ag opsiwn 2 o fewn cylch gorchwyl yr Is-bwyllgor hwn oherwydd ei fod yn darparu eglurder ehangach ar y gwaith a all gael ei gyflawni o fewn y Rhaglen.

Mynegwyd cefnogaeth i'r addasiad hwn i'r Rhaglen Tir ac Eiddo Diwygiedig, gan ymfalchïo ei fod yn darparu hyblygrwydd ar gyfer materion trafnidiaeth sydd yn fuddiol ar gyfer y rhanbarthol. Fodd bynnag, pwysleisiodd mai penderfyniad Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd bydd cadarnhau pa brosiectau all gael eu gweithredu drwy'r addasiad hwn.

8. YMGYNGHORWYR ANWEITHREDOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Weithredwr.

PENDERFYNWYD

Cytuno ar y broses ar gyfer recriwtio a phenodi Ymgynghorwyr Anweithredol yn unol â gofynion Deddf Caffael 2023 a rheoliadau cysylltiedig.

- a) Yn ogystal â'r gofynion Swydd a Phersonol a fabwysiadwyd, bydd pecyn caffael yn cael ei baratoi gyda meini prawf dyfarnu perthnasol
- b) Hysbyseb – Bydd y rolau Ymgynghorydd Anweithredol yn cael eu hysbysebu ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru a sianeli cyfryngau cymdeithasol (Gorffennaf 2025) ac fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf
- c) Ceisiadau – Gofynnir i ymgeiswyr sydd â diddordeb gyflwyno eu CV a'u llythyr eglurhaol yn nodi pam eu bod eisiau'r rôl (Gorffennaf 2025)
- d) Asesu a Rhestr Fer – Bydd llythyr eglurhaol a CVs yn cael eu hasesu yn erbyn y disgrifiadau rôl gan yr SRO a'r Prif Weithredwr a chynrychiolydd o'r Swyddfa Rheoli Portffolio a chytunir ar restr fer i gael eu gwahodd i gyfweiliad (ar ddyddiad i'w gadarnhau ym mis Awst)
- e) Cyfweiliadau – Yna bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu cyfweled gan banel a fydd yn cynnwys y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, yr SRO, y Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro ynghyd â thrydydd aelod Etholedig o'r Is-bwyllgor (i'w gadarnhau) a fydd yn gwneud argymhellion i'w penodi i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd (ar ddyddiad i'w gadarnhau ym mis Medi) yn seiliedig ar y sgoriau terfynol ar ôl y cyfweiliad.
- f) Penodiadau – penodiadau terfynol yn cael ei gwneud gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd (3 Hydref 2025)

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ym mis Mawrth 2025, cymeradwyodd y Cyd-bwyllgor Corfforedig y Cylch Gorchwyl a'r broses benodi ar gyfer Bwrdd Busnes Ymgynghorol newydd yn dilyn trosglwyddo'r Cynllun Twf ynghyd â chymradwyo'r disgrifiadau rôl ar gyfer dau Ymgynghorydd Anweithredol newydd.

Awdurdododd y Cyd-bwyllgor Corfforedig y Prif Weithredwr dros dro i gymryd yr holl gamau angenrheidiol i gaffael ymgeiswyr i'w hargymell i'w penodi i Is-bwyllgor Lles Economaidd CBC.

TRAFODAETH

Eglurwyd bod yr adroddiad hwn yn diweddarau Aelodau ar drafodaethau sydd wedi cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ynglŷn â recriwtio Ymgynghorwyr Anweithredol ac egluro'r broses o benodi'r unigolion hynny.

Atgoffwyd bod y penderfyniad i benodi dau Ymgynghorwr Anweithredol wedi cael ei wneud yng nghyfarfod mis Mawrth 2025 o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Eglurwyd byddai'r Ymgynghorwyr yn gweithio er mwyn cefnogi'r Cynllun Twf gan eu bod yn unigolion a fyddai gyda phrofiad sylweddol o fewn y sector breifat a masnachol. Ymhelaethwyd byddai hyn yn eu galluogi i wneud penderfyniadau yn effeithiol.

Manylwyd byddai'r Ymgynghorwyr Anweithredol yn cefnogi swyddogion y Swyddfa Rheoli Portffolio yn ogystal â'u penodi yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Busnes Ymgynghorol sydd yn y broses o gael eu sefydlu. Ychwanegwyd byddent yn mynychu pwyllgorau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig mewn rôl ymgynghorol.

Adroddwyd bod cyllidebau a disgrifiadau rôl eisoes wedi cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd a Chyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, gan gadarnhau bod trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cadarnhau'r cyllidebau yn ogystal â'r broses penodi. Manylwyd bod y gyllideb yn caniatáu tâl o hyd at £30,000 yn flynyddol ar gyfer pob Ymgynghorydd Anweithredol, gyda £10,000 ychwanegol ar gyfer y Cadeirydd a £5,000 ychwanegol ar gyfer yr Is-gadeirydd. Cadarnhawyd bod y ffigyrau hyn o fewn yr uchafswm o £50,000 yr Ymgynghorydd a gymeradwywyd o fewn trafodaethau blaenorol.

Esboniwyd bydd yr Ymgynghorwyr Anweithredol yn cael eu penodi drwy weithdrefn gystadleuol agored, gan bwysleisio bod gofynion penodol yn cael eu dilyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Caffael 2023 ac unrhyw Reoliadau cysylltiedig. Manylwyd ar y broses recriwtio gan fanylu bydd hysbyseb yn cael ei ryddhau ar wefan y Cyd-bwyllgor hyd at ddiwedd mis Gorffennaf, gyda chyfweliadau yn cael eu cynnal ym mis Medi cyn cadarnhau penodiadau yng nghyfarfod 03 Hydref 2025 o'r Is-bwyllgor hwn.

Cadarnhawyd bod Uchelgais Gogledd Cymru wedi derbyn Cyngor cyfreithiol er mwyn sicrhau bod yr Ymgynghorwyr yn cael eu penodi'n briodol o fewn y trefniant llywodraethu.

Croesawyd y broses o benodi Ymgynghorwyr Anweithredol gan yr Aelodau gan nodi y byddent yn ychwanegu budd mawr i brosesau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod disgrifiadau rolau'r Ymgynghorwyr Anweithredol yn gofyn iddynt oruchwylio gwaith a phrosiectau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ei gyfanrwydd gan nodi bydd elfennau Trafnidiaeth Strategol a Chynllunio yn rhan o'r swyddogaeth. Fodd bynnag, dymunir targedu ffocws tuag at y Cynllun Twf fel man cychwyn cyn ei ymestyn ehangach.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Prif Weithredwr ei fod yn hanfodol bod yr Ymgynghorwyr Anweithredol yn rhan o broses o lunio'r Bwrdd Busnes Ymgynghorol o fewn eu rôl fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd. Cadarnhawyd bod yr amserlen o ddatblygu'r Bwrdd yn digwydd yn dilyn cadarnhau penodiadau'r Ymgynghorwyr Anweithredol. Ymhelaethwyd bydd adroddiad ychwanegol yn cael ei gyflwyno i'r Is-bwyllgor hwn er mwyn manylu ar yr amserlen a chymau o sefydlu'r Bwrdd Busnes Ymgynghorol pan yn amserol.

Mewn ymateb i ymholiadau ar dermau cyflogaeth yr Ymgynghorwyr Anweithredol, cadarnhaodd y Swyddog Monitro nad oes modd iddynt fod yn Aelodau cyfetholedig o unrhyw gyfarfod gan eu bod yn swyddogion cyflogedig. Cadarnhawyd mai cyflogi ymgynghorwyr drwy gytundeb caffael yw'r bwriad yn dilyn cyngor cyfreithiol, ac nid yw hyn yn arwain at agweddau megis cyfrannu at bensiynau fel rhan o'r gyflogaeth. Ymhelaethodd y Prif Weithredwr byddai cytundeb yr Ymgynghorwyr yn weithredol am dymor o ddwy flynedd.

Yn dilyn ymholiad ynglŷn â'r cyfweiliadau, cynigwyd ac eiliwyd cynnig lle i aelod arall o'r Is-bwyllgor bod yn bresennol fel rhan o'r Panel Cyfweld. Nodwyd bod y Panel eisoes yn cynnwys y Cadeirydd, Is-gadeirydd, Prif Weithredwr, a'r Uwch Swyddog Cyfrifol (SRO) ac ystyriwyd y byddai'n ddefnyddiol i aelod arall o'r Is-bwyllgor bod yn bresennol i ennyn profiad a bod yn rhan o'r penderfyniad. Gwahoddwyd yr Aelodau i ddatgan diddordeb os ydynt yn dymuno bod yn rhan o'r Panel a fyddai'n cael ei gynnal ym mis Medi, y tu hwnt i'r cyfarfod hwn.

9. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024/25

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gweithrediadau

PENDERFYNWYD

- 1. Ystyried a nodi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024/25.**
- 2. Cymeradwyo cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024/25 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.**

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae adrodd chwarterol a blynyddol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn Dilyn ystyriaeth gan Is-bwyllgor Lles Economaidd CBC y Gogledd, caiff yr adroddiadau ei rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

TRAFODAETH

Adroddwyd ar y gwaith a gyflawnwyd dros y flwyddyn gan ddathlu llwyddiant y datblygiadau a welwyd er ei fod yn flwyddyn heriol.

Ymfalchiwyd bod niferoedd yr achosion busnes a gymeradwywyd wedi cynyddu a bod datblygiadau ei weld o fewn prosiectau megis y Ganolfan Opteg a Pheirianeg Menter a Chanolfan Biotechnoleg Amgylcheddol+.

Cadarnhawyd bod yr adroddiad yn manylu ar pedwerydd mlynedd y Cynllun Twf, gan gydnabod bod sylwadau allanol wedi dod i law nad oes digon wedi cael ei gyflawni ar hyn o bryd. Pwysleisiodd y Prif Weithredwr bod llawer wedi cael ei gyflawni hyd yma, gan ystyried bod Pandemig byd-eang wedi bod yn ystod y cyfnod cyflawni hyd yma. Ymhelaethodd bod hyd y Cynllun yn 15 mlynedd gyda prosiectau cymleth yn cael eu datblygu. Ystyriwyd bod natur y prosiectau yn ogystal a'r meddylfryd arloesol yn mynd i warchod y Rhanbarth ar gyfer y dyfodol tra hefyd yn Datblygu economi. Mynegwyd hyder bydd mwy o brosiectau yn cael eu cymeradwyo yn y flwyddyn nesaf a'r blynyddoedd dilynol gan bod gweithdrefnau cadarn mewn lle.

Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, cytunwyd i gynnwys diweddariadau o fewn yr Adroddiadau Chwarterol sydd yn manylu ar dargedau allweddol megis y niferoedd yr achosion busnes sydd wedi cael eu cymeradwyo, niferoedd swyddi sydd wedi cael eu creu a dangosyddion perfformiad eraill er mwyn gallu gweld os yw'r Cynllun yn datblygu'r amserol ac yn gallu cymharu'r gwaith gyda'r blynyddoedd sydd wedi bod ac i'r dyfodol. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Weithredwr bydd gwaith yn cael ei wneud er mwyn ymdrechu i ddangos y data hwn mewn adroddiadau i'r dyfodol gan y byddai'n ddefnyddiol i ystyried y wybodaeth cyn cyflwyno'r Adroddiadau Blynyddol.

10. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar Eitem 11-14 gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn â materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a'r Cytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau.

11. ACHOS CYFIAWNHAD BUSNES LLAETH DEFAID CYMRU HWB ECONOMI GWLEDIG GLYNLLIFON

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Rhaglen y Cynllun Twf

PENDERFYNWYD

- 1. Cymeradwyo'r Achos Cyfiawnhad Busnes drafft ar gyfer elfen Llaeth Defaid Cymru o brosiect Hwb Economi Wledig Glynllifon ac yn awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghorid â'r Cadeirydd, Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gytuno ar y fersiwn terfynol ar ôl caffael ac ymrwmo i gytundeb cyllido gyda Grŵp Llandrillo Menai ar gyfer cyflawni'r prosiect, yn amodol ar Grŵp Llandrillo Menai yn mynd i'r afael â'r materion sy'n weddill a sicrhau'r holl gymeradwyaethau mewnol angenrheidiol ar gyfer y prosiect.**
- 2. Nodi bydd dau gymeradwyaeth Achos Busnes arall i gyflawni'r elfennau sy'n weddill o brosiect Hwb Economi Wledig Glynllifon ac y bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i'r Is-bwyllgor i'w hystyried yn y dyfodol.**

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i'r Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer elfen Llaeth Defaid Cymru o brosiect Hwb Economi Wledig Glynllifon.

Mae'r Achos Cyfiawnhad Busnes drafft yn cael ei gyflwyno i'r Is-bwyllgor ym mis Gorffennaf i alluogi penderfyniad amserol a fyddai'n osgoi oedi cyflawni'r prosiect. Mae caffael ar gyfer

y prosiect yn fyw ar hyn o bryd a disgwylir penderfyniad ar 06/08/2025. Nid yw cyfarfod nesaf yr Is-bwyllgor tan fis Hydref 2025 a byddai'n arwain at oedi i gyflawni'r prosiect pe na bai'r Achos Cyfiawnhad Busnes drafft a'r awdurdod dirprwyedig yn cael eu cymeradwyo.

TRAFODAETH

Trafodwyd yr Adroddiad.

12. ACHOS BUSNES LLAWN DI-WIFR UWCH (CAMPYSAU CYSYLLTIEDIG)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr y Rhaglen Digidol.

PENDERFYNWYD

1. Cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn ar gyfer y prosiect Di-wifr Uwch (Campysau Cysylltiedig) gan nodi y bydd cyfnod cychwynnol dyluniad y cynllun grant ar ôl cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn angen asesiad rheoli cymhorthdai terfynol o'r Cynllun Cymhorthdal arfaethedig.
2. Dirprwyo'r hawl i'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gytuno ar ddyluniad terfynol y cynllun grant.
3. Dirprwyo cyflwyno'r prosiect i'r Cyfarwyddwr Portffolio gan gynnwys dyfarniadau grant unigol dilynol yn unol â'r cynllun grant terfynol hyd at £500,000 gyda dyfarniadau grant unigol rhwng £500,000 a £1miliwn yn cael ei gwneud mewn ymgynghoriad â Chadeirydd, Is-gadeirydd, Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

I geisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i'r Achos Busnes Llawn ar gyfer y Prosiect Di-wifr Uwch (Campysau Cysylltiedig).

Cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect ar 20fed Medi 2024. Yn dilyn hynny, derbyniodd y prosiect gymeradwyaeth y broses sicrwydd gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn galluogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio i symud ymlaen gyda datblygu'r Achos Busnes Llawn.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru bellach wedi cwblhau ymgysylltu â'r farchnad cyn cymeradwyaeth y prosiect a chyflwyno Achos Busnes Llawn i'r Bwrdd ar gyfer penderfyniad buddsoddi terfynol.

TRAFODAETH

Trafodwyd yr Adroddiad.

13. CAIS AM NEWID CANOLFAN OPTEG A PHEIRIANNEG MENTER

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Rhaglen y Cynllun Twf.

PENDERFYNWYD

1. Cymeradwyo'r cais am newid ar gyfer y prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter ac yn gwneud y newidiadau a ganlyn:

2. Rhoi cymeradwyaeth ar gyfer buddsoddiad ychwanegol y Cynllun Twf o £446,041 i alluogi'r prosiect symud ymlaen i'r cyfnod cyflawni, yn amodol ar yr arian yn cael ei wario yn llawn o fewn y flwyddyn ariannol 2025-26. Bydd y buddsoddiad hwn yn cynhyrchu nifer o fuddion ychwanegol, gan gynnwys cyllid cyfatebol wedi'i gadarnhau o £250,898 gan Brifysgol Wrecsam a chreu chwe swydd gyfwerth â llawn amser ar gyfer y rhanbarth.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i'r cais am newid ar gyfer y Ganolfan Opteg a Pheirianeg Menter ar gyfer buddsoddiad ychwanegol y Cynllun Twf.

TRAFODAETH

Trafodwyd yr Adroddiad.

14. CAIS AM NEWID ANTURIAETHAU CYFRIFOL

PENDERFYNWYD

1. Cytuno i'r cais am newid ar gyfer y prosiect Anturiaethau Cyfrifol ac yn gwneud y newidiadau a ganlyn:
 - a. Cymeradwyo tynnu'r elfen eFws o sgôp prosiect
 - b. Cymeradwyo'r broses datblygu a chyflawni achos busnes
 - c. Cadarnhau bod y ddau amod sy'n weddill a osodwyd yn ystod y gymeradwyaeth i'r Achos Busnes Amlinellol wedi'u bodloni'n ddigonol ac y gall y prosiect fwrw ymlaen i gyflwyno achosion busnes ar gyfer cymeradwyaeth cyllid yn unol â'r cynnig cyflawni fesul cam yn y cais am newid.
 - d. Gofyn am ragor o wybodaeth fanwl am y cais am newid arfaethedig i ddisodli elfen eFws y prosiect gyda datblygiad Uwch-gynllun Fforest ym Metws y Coed a bod hyn yn cael ei gyflwyno i'r Is-bwyllgor nesaf ym mis Hydref i'w ystyried.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae ceisiadau am newidiadau i brosiectau gan Arianwyr Prosiectau yn faterion i'r Is-bwyllgor eu penderfynu.

TRAFODAETH

Trafodwyd yr Adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 09:30 a daeth i ben am 12:05.

Cadeirydd

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

3 Hydref 2025

TEITL: Sefyllfa Refeniw 2025/26 – Adolygiad Diwedd Gorffennaf 2025.

AWDUR: Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC)
Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn bwriadu rhoi manylion i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd y rhagamcanion alldro blwyddyn lawn yn erbyn ei gyllideb flynyddol.
- 1.2. Er mwyn gweithredu'n effeithiol, mae angen i'r Is-bwyllgor fod yn ymwybodol o'r sefyllfa gwariant a ragwelir yn erbyn y gyllideb flynyddol a gymeradwywyd.
- 1.3. Cyflwynwyd a chymeradwywyd yr adolygiad gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CBC) yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2025.

2. PENDERFYNIADAU A GEISIWYD

- 2.1. I nodi yr adolygiad refeniw diwedd Gorffennaf 2025, gan gynnwys y trosglwyddiad unwaith ac am byth yn y gyllideb sy'n ymwneud ag incwm a gwariant grant (Atodiad 1).
- 2.2. I nodi y sefyllfa cronfeydd wrth gefn (Atodiad 2).

3. RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. I nodi tanwariant a ragwelir o £280,562 yn erbyn cyllideb refeniw ar gyfer 2025/26.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru cyllideb refeniw a chyfalaf 2025/26 yr Is-bwyllgor Lles Economaidd yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2025.
- 4.2. Bydd y gyllideb yn parhau i gael ei monitro a'i hadolygu trwy gydol blwyddyn ariannol 2025/26, a bydd adolygiad y trydydd chwarter yn cael ei gyflwyno i'r Is-bwyllgor yn Chwefror 2026.
- 4.3. Mae rhaglen gyfalaf y Cynllun Twf yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd yn dilyn rhestr wrth gefn y prosiectau, gyda'r Achos Busnes Portffolio i'w gymeradwyo ym mis Rhagfyr, felly bydd proffil cyfalaf wedi'i ddiweddarau yn cael ei gyflwyno gyda'r adolygiad trydydd chwarter.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 5.1. Mae Atodiad 1 yn darparu dadansoddiad manwl o wariant gwirioneddol ac incwm yr Is-bwyllgor Lles Economaidd fesul pennawd hyd at ddiwedd Gorffennaf 2025, ynghyd â rhagamcaniad alldro blwyddyn lawn yn erbyn ei gyllideb flynyddol.
- 5.2. Amcangyfrifir y bydd y sefyllfa alldro net ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2025/26 yn danwariant o £280,562. Mae hyn yn bennaf oherwydd tanwariant mewn gwariant gweithwyr, swyddi llywodraeth ychwanegol a gwasanaethau cefnogol y corff atebol. Roedd Uchelgais Gogledd Cymru hefyd yn llwyddiannus gyda'u cais Cronfa Ffyniant Cyffredin sydd wedi cyfrannu ymhellach at y tanwariant mewn gwariant gweithwyr.

Swyddfa Rheoli Portffolio

- 5.3. Mae tanwariant o £229,801 ar y Swyddfa Rheoli Portffolio ac mae'r prif danwariant yn cael ei ddangos ar y pennawd gwariant gweithwyr a swyddi llywodraeth ychwanegol.
- 5.4. Mae'r cyllid a dderbyniwyd o'r grant Cynllunio Ynni Ardal Leol a Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar gyfer 2025/26 wedi'i ddefnyddio i ariannu costau dau swyddog a chyfran o'r costau ar gyfer staff eraill. Mae secondiad tri swyddog a'r Cyfarwyddwr Portffolio blaenorol i'r CBC am un/dau ddiwrnod yr wythnos hefyd wedi arwain at danwariant mewn gwariant gweithwyr.
- 5.5. Mae rhan o'r tanwariant hwn wedi'i ddefnyddio i ariannu costau ymgynghorydd allanol dros dro i gefnogi'r Rhaglen Ynni y tu hwnt i'r grant Cynllunio Ynni Ardal Leol. Hefyd wedi'i gynnwys o fewn costau ymgynghorydd allanol mae costau Rheolwr Rhaglen Weithredu'r CBC sy'n gysylltiedig â chefnogi'r Cynllun Twf.
- 5.6. Mae recriwtio swyddi ychwanegol sydd wedi'u cynnwys yn y gyllideb fel staff prosiectau a swyddi llywodraeth wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ariannol, felly hefyd yn cyfrannu at y tanwariant. Fodd bynnag, disgwylir i recriwtio ychwanegol, gan gynnwys recriwtio Cyfarwyddwr Portffolio, arwain at orwariant mewn costau hysbysebu ac asesu ymgeiswyr.
- 5.7. Mae'r pennawd yswiriant yn dangos gorwariant o £11,800 oherwydd bod rhan fwyaf o'r gost wedi'i dosrannu rhwng y CBC a'r Is-bwyllgor Lles Economaidd yn seiliedig ar gostau cyllideb gweithwyr.

Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol

- 5.8. Yr amcangyfrif o danwariant ar y pennawd hwn yw £26,190 oherwydd recriwtio staff Cyngor Gwynedd sy'n cefnogi'r CBC yn digwydd yn ystod y flwyddyn ariannol. Bydd y recriwtio hwn yn digwydd ar ôl i'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gael ei derfynu.

Cyd-bwyllgor

- 5.9. Mae pennawd y cyd-bwyllgor yn dangos tanwariant net o £2,553 oherwydd y tanwariant a ragwelir mewn ffioedd archwilio sy'n gwrthbwysu'r cynnydd mewn costau cefnogaeth cyfreithiol allanol.

Prosiectau

- 5.10. Y gorwariant net disgwylledig ar y pennawd hwn yw £6,689. Mae gorwariant mewn costau cefnogaeth gyfreithiol allanol ar nifer o brosiectau yn y rhaglen gyfalaf, fodd bynnag, disgwylir tanwariant ar gostau sicrwydd.

Cynlluniau Grant

- 5.11. Mae'r gwariant o dan y pennawd hwn yn cynnwys prosiectau Ynni Ardal Leol a Ffyniant Gyffredin a ariennir gan grant lle derbyniwyd cyllid tan fis Mawrth 2026.
- 5.12. Mae'r incwm a ddyfarnwyd o £621,320 o'r grantiau hyn wedi'i gynnwys yng ngholofn trosglwyddiadau unwaith ac am byth, gyda'r gwariant cyllidebol yn cael ei ddangos yn erbyn y llinell berthnasol ym mhennawd cynlluniau grant.

Cyfraniadau Ariannu

- 5.13. Mae'r prif ffrydiau incwm ar gyfer 2025/26 yn cynnwys cyfraniadau partneriaid, grant Cynllun Twf Gogledd Cymru (dyraniad refeniw ac ariannu costau staff prosiectau), grant ynni Llywodraeth Cymru, Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, y gronfa wrth gefn wedi'i glustnodi a'r gronfa adnoddau.
- 5.14. Y defnydd a ragwelir o'r grant Cynllun Twf ar gyfer staff prosiectau yw £205,382 o'i gymharu â'r gyllideb o £116,675. Mae hyn oherwydd y grant yn ariannu 50% o gostau staff a oedd wedi'u hariannu 100% gan grant ynni Llywodraeth Cymru mewn blynyddoedd blaenorol, yn ogystal â chynnydd yn nifer y staff y disgwylir iddynt gael eu recriwtio ar gyfer prosiectau ynni a digidol.

Cronfeydd wrth gefn

- 5.15. Mae Atodiad 2 yn dangos amcangyfrif o'r balansau cronfeydd ar 31 Mawrth 2026.
- 5.16. Cyfanswm y balans cronfa wrth gefn a glustnodwyd ar 31 Mawrth 2025 oedd £210,977, ac mae £60,990 o'r gronfa wrth gefn hon wedi'i ddyrannu i gyllideb 2025/26 i roi balans amcangyfrifedig o £149,987 ar 31 Mawrth 2026.
- 5.17. Balans y gronfa prosiectau ar 31 Mawrth 2025 oedd £29,167. Yn 2024/25, talwyd costau o £123,133 yn ymwneud â'r Prosiect Ynni Lleol Glân o'r gronfa gan fod yr Achos Busnes Llawn eto i'w gymeradwyo erbyn 31 Mawrth 2025. Mae'r Achos Busnes Llawn bellach wedi'i gymeradwyo, felly bydd £123,133 o grant y Cynllun Twf yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn.
- 5.18. Mae'r gronfa llog wedi'i neilltuo i ariannu costau benthyca yn y blynyddoedd i ddod. Ei balans amcangyfrifedig ar 31 Mawrth 2026 yw £4,841,863 ac mae hyn yn cynnwys y cyfraniadau llog partneriaid o £108,380 a dderbynnir yn ystod y flwyddyn.
- 5.19. Defnyddir y gronfa adnoddau i ariannu gofynion ychwanegol y llywodraeth a chostau datblygu prosiectau, yn ogystal â chadw capasiti'r Swyddfa Rheoli Portffolio. Mae £412,085 o'r gronfa hon wedi'i ddyrannu i gyllideb 2025/26 i roi balans amcangyfrifedig o £2,388,146 ar 31 Mawrth 2026. Bydd y llog a dderbynnir ar y grant Cynllun Twf yn 2025/26 hefyd yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa adnoddau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

6. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD

- 6.1. Cyflwynwyd yr atodiadau'r adroddiad hwn i'r Bwrdd Portffolio ar 12 Medi 2025 ac fe'u cymeradwywyd gan y CBC ar 19 Medi 2025.

7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

- 7.1. Mae Uwch Swyddogion Uchelgais Gogledd Cymru yn ogystal â'r Swyddog Monitro wedi cyfrannu at yr adolygiad hwn.

ATODIADAU:

Atodiad 1 Cyllideb Refeniw yr Is-bwyllgor Lles Economaidd 2025/26 – Adolygiad Diwedd Gorffennaf 2025

Atodiad 2 Sefyllfa cronfeydd yr Is-Bwyllgor Lles Economaidd

YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w ychwanegu mewn perthynas â phriodoldeb.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

Awdur yr adroddiad.

Sefyllfa Ariannol yr Is-bwyllgor Lles Economaidd (Gorffennaf 2025)							Atodiad 1
	Cyllideb Sylfaenol	Trosglwyddiadau Unwaith ac am byth	Cyfanswm Cyllideb	Gorffennaf 2025	Ymrwymadau Gorffennaf 2025	Amcangyfrif o'r Sefyllfa Derfynol	Gor / (Tan)wariant
Gwariant	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)
Swyddfa Rheoli Portffolio							
Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal)	1,558,280	0	1,558,280	420,533	0	1,332,413	(225,867)
Swyddi Llywodraeth Ychwanegol	206,320	0	206,320	0	0	97,903	(108,417)
Ymgynghorydd Allanol	0	0	0	3,912	671	84,183	84,183
Hysbysebu ac Asesu Ymgeiswyr	2,500	0	2,500	592	2,699	15,000	12,500
Teithio a Chynhaliaeth	10,000	0	10,000	115	882	6,000	(4,000)
Hyfforddiant	18,000	0	18,000	849	0	18,000	0
Ymgysylltu a Chyfarfodydd	10,000	0	10,000	735	1,785	10,000	0
Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus	25,000	0	25,000	8,931	411	25,000	0
Cyflenwadau a Gwasanaethau	15,000	0	15,000	4,497	1,154	15,000	0
Eiddo	36,000	0	36,000	0	0	36,000	0
Datblygu Portffolio a Rhaglenni	30,000	0	30,000	0	0	30,000	0
Yswiriant	4,130	0	4,130	0	0	15,930	11,800
Systemau	9,540	0	9,540	7,500	599	9,540	0
Cyfanswm Swyddfa Rheoli Portffolio	1,924,770	0	1,924,770	447,664	8,201	1,694,969	(229,801)
Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol							
Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid	113,330	0	113,330	0	0	94,670	(18,660)
Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro)	44,980	0	44,980	0	0	44,980	0
Cefnogaeth Democratiaeth	28,430	0	28,430	0	0	20,900	(7,530)
Gwasanaethau Corfforaethol	48,350	0	48,350	0	0	48,350	0
Technoleg Gwybodaeth	28,440	0	28,440	0	0	28,440	0
Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol	263,530	0	263,530	0	0	237,340	(26,190)
Cyd-bwyllgor							
Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol	18,000	0	18,000	26,797	0	26,797	8,797
Ffioedd Cyllidol Allanol	10,000	0	10,000	1,445	0	10,000	0
Ffi Archwilio Allanol	28,350	0	28,350	0	0	17,000	(11,350)
Bwrdd Cyflawni Busnes	15,000	0	15,000	0	0	15,000	0
Cyfanswm Cyd-bwyllgor	71,350	0	71,350	28,242	0	68,797	(2,553)
Prosiectau							
Datblygu Achosion Busnes y Prosiectau	150,000	0	150,000	23,780	0	150,000	0
Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol	150,000	0	150,000	31,709	0	181,689	31,689
Cefnogaeth Gyllidol Allanol	50,000	0	50,000	0	0	50,000	0
Cefnogaeth Caffael Allanol	50,000	0	50,000	0	0	50,000	0
Sicrwydd	50,000	0	50,000	0	0	25,000	(25,000)
Cyfanswm Prosiectau	450,000	0	450,000	55,489	0	456,689	6,689
Cynlluniau grant							
Gwariant gweithwyr - Prosiect Ynni Ardal Leol	0	80,040	80,040	33,120	0	80,040	0
Costau cysylltiedig eraill - Prosiect Ynni Ardal Leol	0	10,310	10,310	874	174	10,310	0
Ymgynghorydd Allanol - Prosiect Ynni Ardal Leol	0	79,920	79,920	27,690	9,270	79,920	0
Cynlluniau Ynni Ardal Lleol	0	6,800	6,800	6,800	0	6,800	0
Gwariant gweithwyr - Cronfa Ffyniant Gyffredin	0	196,870	196,870	62,035	0	196,870	0
Costau cysylltiedig eraill - Cronfa Ffyniant Gyffredin	0	16,865	16,865	4,937	0	16,865	0
Cynlluniau Ffyniant Gyffredin	0	230,515	230,515	0	0	230,515	0
Cyfanswm Cynlluniau grantiau	0	621,320	621,320	135,456	9,444	621,320	0
Trosglwyddiadau i gronfeydd							
Cyfraniadau llog y Partneriaid	108,380	0	108,380	0	0	108,380	0
Cyfanswm trosglwyddiadau i gronfeydd	108,380	0	108,380	0	0	108,380	0
Cyfanswm Gwariant	2,818,030	621,320	3,439,350	666,851	17,645	3,187,495	(251,855)

Sefyllfa Ariannol yr Is-bwyllgor Lles Economaidd (Gorffennaf 2025)							Atodiad 1
	Cyllideb	Trosglwyddiadau Unwaith ac am byth	Cyfanswm Cyllideb	Gorffennaf 2025	Ymrwymïadau Gorffennaf 2025	Amcangyfrif o'r Sefyllfa Derfynol	Gor / (Tan)wariant
Incwm	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)
Cyfraniadau Ariannu							
Cyfraniadau Partneriaid							
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	(58,730)	0	(58,730)	0	0	(58,730)	0
Cyngor Sir Ddinbych	(58,730)	0	(58,730)	0	0	(58,730)	0
Cyngor Sir y Fflint	(58,730)	0	(58,730)	0	0	(58,730)	0
Cyngor Gwynedd	(58,730)	0	(58,730)	0	0	(58,730)	0
Cyngor Sir Ynys Môn	(58,730)	0	(58,730)	0	0	(58,730)	0
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(58,730)	0	(58,730)	0	0	(58,730)	0
Prifysgol Bangor	(29,380)	0	(29,380)	0	0	(29,380)	0
Prifysgol Wrecsam	(29,380)	0	(29,380)	0	0	(29,380)	0
Coleg Cambria	(29,380)	0	(29,380)	0	0	(29,380)	0
Grŵp Llandrillo Menai	(29,380)	0	(29,380)	0	0	(29,380)	0
Cyfraniadau Atodol Awdurdodau Lleol							
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	(40,000)	0	(40,000)	0	0	(40,000)	0
Cyngor Sir Ddinbych	(40,000)	0	(40,000)	0	0	(40,000)	0
Cyngor Sir y Fflint	(40,000)	0	(40,000)	0	0	(40,000)	0
Cyngor Gwynedd	(40,000)	0	(40,000)	0	0	(40,000)	0
Cyngor Sir Ynys Môn	(40,000)	0	(40,000)	0	0	(40,000)	0
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(40,000)	0	(40,000)	0	0	(40,000)	0
Cyfraniadau llog y Partneriaid							
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	(13,420)	0	(13,420)	0	0	(13,420)	0
Cyngor Sir Ddinbych	(11,870)	0	(11,870)	0	0	(11,870)	0
Cyngor Sir y Fflint	(18,710)	0	(18,710)	0	0	(18,710)	0
Cyngor Gwynedd	(13,730)	0	(13,730)	0	0	(13,730)	0
Cyngor Sir Ynys Môn	(8,290)	0	(8,290)	0	0	(8,290)	0
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(23,210)	0	(23,210)	0	0	(23,210)	0
Prifysgol Wrecsam	(10,070)	0	(10,070)	0	0	(10,070)	0
Grŵp Llandrillo Menai	(9,080)	0	(9,080)	0	0	(9,080)	0
Eraill							
Grant Bargen Twf Gogledd Cymru	(1,350,000)	0	(1,350,000)	0	0	(1,350,000)	0
Grant Bargen Twf Gogledd Cymru (Staff Prosiectau)	(116,675)	0	(116,675)	0	0	(205,382)	(88,707)
Cyfalafu Costau Staff	(60,000)	0	(60,000)	0	0	0	60,000
Grant Ynni Llywodraeth Cymru	0	(177,070)	(177,070)	(53,269)	0	(177,070)	0
Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG	0	(444,250)	(444,250)	0	0	(444,250)	0
Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi	(60,990)	0	(60,990)	0	0	(60,990)	0
Cronfa Adnoddau	(412,085)	0	(412,085)	0	0	(412,085)	0
Cyfanswm Incwm	(2,818,030)	(621,320)	(3,439,350)	(53,269)	0	(3,468,057)	(28,707)
Gor / (Tan) wariant Net	0	0	0	613,582	17,645	(280,562)	(280,562)

	£
Cyfanswm y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2025	(210,977)
Dyraniad cyllideb 2025/26	60,990
Cyfanswm y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2026	(149,987)

	£
Cyfanswm y gronfa Prosiectau ar 31 Mawrth 2025	(29,167)
Trosglwyddiad i mewn yn 2025/26	(123,133)
Cyfanswm y gronfa Prosiectau ar 31 Mawrth 2026	(152,300)

	£
Cyfanswm y gronfa llog ar 31 Mawrth 2025	(4,733,483)
Cyfraniadau 2025/26	(108,380)
Cyfanswm y gronfa llog ar 31 Mawrth 2026	(4,841,863)

	£
Cyfanswm y gronfa adnoddau ar 31 Mawrth 2025	(2,800,231)
Defnydd yn 2025/26	412,085
Cyfanswm y gronfa adnoddau ar 31 Mawrth 2026	(2,388,146) *

* Bydd llog ar falansau y Cynllun Twf cael ei ychwanegu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

3ydd o Hydref 2025

TEITL: Cynllun Twf Gogledd Cymru – Adroddiad Perfformiad a Risg Chwarter 1

AWDUR: Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno adroddiad Chwarter 1 (Ebrill i Mehefin) y Cynllun Twf a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.
- 1.2. Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan yr Is-Bwyllgor Llesiant Economaidd, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Bod yr Is-Bwyllgor yn ystyried ac yn nodi Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.
- 2.2. Bod yr Is-Bwyllgor yn cymeradwyo cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth Uchelgais Gogledd Cymru a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.
- 4.2. Mae adrodd rheolaidd ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.
- 4.3. Mae dau atodiad i'r adroddiad hwn:
 - Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 1
 - Cofrestr Risg y Portffolio – Mehefin 2025
- 4.4. Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 1
 - 4.4.1. Mae adroddiad perfformiad Chwarter 1 yn darparu trosolwg o gynnydd ar raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf.

- 4.4.2. Ar gychwyn y chwarter, trosglwyddodd ein Tîm Rheoli Portffolio, y Cynllun Twf a'i gyllid i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, dan yr enw brand Uchelgais Gogledd Cymru. Bellach, mae'r Cynllun Twf yn cael ei oruchwylio gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd, gan eistedd o fewn strwythur llywodraethu ehangach y Cyd-bwyllgor Corfforedig.
- 4.4.3. Yn ystod y chwarter cymeradwyodd yr Is-bwyllgor Lles Economaidd ddau Achos Busnes Llawn, ar gyfer y prosiect 4G+ a'r prosiect Ynni Lleol Blaengar (sydd bellach yn cael ei alw'n Gronfa Ynni Glân). Hefyd, rhoddwyd cymeradwyaeth i Achos Cyfiawnhau Busnes Theatr Clwyd - rhan o'r Prosiect Rhwydwaith Talent Twristiaeth.
- 4.4.4. Cwblhawyd y cytundeb benthyciad ar gyfer prosiect Cydnerth yn swyddogol a chafodd ei lofnodi rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a Menter Môn, a phroseswyd y taliad benthyciad cyntaf.
- 4.4.5. Y chwarter hwn, gwnaed nifer o benderfyniadau i fwrw ymlaen ar garlam i gyflawni'r Cynllun Twf. Aeth y Swyddfa Rheoli Portffolio ati i gynnal Adolygiad Portffolio, gan ganolbwyntio ar bum prosiect a oedd wedi bod yn adrodd yn goch, ynghyd â phedwar prosiect oedd yn adrodd yn ambr. Cymeradwyodd yr Is-bwyllgor Lles Economaidd benderfyniad i:
- Dynnu dau brosiect yn ôl o'r Cynllun Twf, sef y prosiect Yr Ychydig % Olaf a'r prosiectau Ffibr Llawn.
 - Tynnu prosiect Trawsfynydd yn ei ôl o'r Cynllun Twf, ac ychwanegu cynllun amgen i Drawsffynydd ar y Rhestr Wrth Gefn.
 - Symud prosiectau Stiwdios Cinmel a H2-Newydd i'r rhestr wrth gefn.
- 4.4.6. Yn mis Mai cytunwyd yn Is-bwyllgor Lles Economaidd mis Mai i wahodd 17 o brosiectau i ymuno â'r Rhestr Wrth Gefn y Cynllun Twf yn dilyn cwblhau'r broses Datgan Diddordeb.
- 4.4.7. Cytunodd yr Is-bwyllgor a'r ddwy Lywodraeth ar Broses Sicrwydd a Chymeradwyo wedi'i Lliflinio, gyda dull sy'n fwy seiliedig ar risg sy'n adlewyrchu dull y llywodraeth.
- 4.4.8. Mae diweddariad Chwarter 1 yn dangos prosiectau yn adrodd yn erbyn proffil cyflawni y portffolio. Mae pedwar prosiect yn adrodd yn goch ar ddiwedd y chwarter, ac yn cael ei adolygu. Y prosiectau sydd ar hyn o bryd yn adrodd yn goch yw:
- Hwb Hydrogen Caergybi – prosiect yn cael ei adolygu, gyda materion allweddol a risgiau yn parhau i gael ei datrys.
 - Porth y Gorllewin – Prosiect yn cael ei adolygu, wrth aros am asesiad o'r adroddiad WELTaG Lite.
 - Warren Hall – Prosiect yn cael ei adolygu, wrth aros i'r achos diogelwch maes awyr gael ei asesu a'i gytuno'n llawn.
 - Porth Caergybi – Prosiect yn cael ei adolygu, gan fod angen cwblhau trafodaethau â defnyddiwr terfynol ardaloedd porthladd newydd cyn symud ymlaen.
- 4.4.9. Pan gymeradwywyd Achos Busnes Llawn Cydnerth yn Chwefror 2025, roedd cais gan y Bwrdd Uchelgais i dderbyn adroddiad diweddariad ar y prosiect o fewn 6 mis. Mae'r Atodiad 3 yn darparu crynodeb o'r cynnydd ers cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn.
- 4.5. Cofrestr Risg y Portffolio – Mehefin 2025
- 4.5.1. Mae Cofrestr Risg y Portffolio yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a'i hadolygu gan y Bwrdd Portffolio a'r Is-Bwyllgor Llesiant Economaidd (yn flaenorol y Bwrdd Uchelgais) yn chwarterol.

- 4.5.2. Mae'r gofrestr risg wedi'i diweddaru'n llawn gan y Swyddfa Rheoli Portffolio, gyda newidiadau wedi ei cofnodi yn y ddogfen gan gynnwys camau lliniaru diwygiedig ac mae'r sylwadau wedi'u diweddaru.
- 4.5.3. Roedd dau newid i'r risgiau gweddilliol y chwarter hwn. Gostyngodd y risg gweddilliol ar gyfer 'Oedi' yn dilyn yr Adolygiad Portffolio a thynnu prosiectau yn ôl a symud prosiectau a oedd yn adrodd yn goch i'r rhestr wrth gefn. Mae'r risg gweddilliol ar 'Gynllunio a Caniatâd Statudol' wedi cynyddu wrth i'r broses o uwchraddio gwaith trin dŵr i liniaru ffosffadau o'u gollyngiadau gymryd mwy o amser ac mae hyn bellach yn effeithio ar geisiadau cynllunio. Ar hyn o bryd nid yw hyn yn effeithio ar brosiectau'r cynllun Twf.
- 4.5.4. Er bod y proffil risg wedi parhau'n sefydlog yn gyffredinol yn ystod y chwarter diwethaf, mae'r proffil risg yn parhau yn uchel gyda nifer o risgiau gweddilliol coch gan gynnwys fforddiadwyedd, cynllunio a chaniatâd statudol, buddsoddiad sector preifat ac amcanion gwario.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 5.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn.
- 5.2. Mae'r proffil cyflawni a gwariant diwygiedig a gymeradwywyd gan y Bwrdd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad chwarterol.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

- 6.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol o'r adroddiad hwn.
- 6.2. Mae adrodd rheolaidd ar berfformiad y Cynllun Twf yn rhan o'r fframwaith llywodraethu y cytunwyd arno ac yn un o ofynion allweddol Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

ATODIADAU:

- Atodiad 1:** Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 1
- Atodiad 2:** Cofrestr Risg y Portffolio – Mehefin 2025
- Atodiad 3:** Diweddariad Interim prosiect Cydnerth

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

“Un o brif dasgau'r Is-Bwyllgor Llesiant Economaidd yw monitro cynnydd a risgiau. Mae angen i'r Is-Bwyllgor ystyried y gofrestr a bodloni ei hun ei bod yn adlewyrchu'r statws risg yn gywir a bod camau lliniaru yn derbyn sylw.”

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

“Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol Uchelgais Gogledd Cymru yn ystod chwarter 1. Ni fydd gweithredu’r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad ariannol newydd. Byddaf yn parhau i gefnogi Swyddfa Rheoli Portffolio wrth reoli’r risgiau perthnasol.”

Cynllun Twf Gogledd Cymru Adroddiad Perfformiad Chwarterol

2025-26 Chwarter 1
(Ebrill - Mehefin 2025)

01	Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio	3
02	Dashfwrdd Cyflawni Prosiect	4
03	Dashfwrdd Buddion	5
04	Perfformiad y Rhaglen Cysylltedd Ddigidol	6
05	Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel	8
06	Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo	10
07	Perfformiad y Rhaglen Bwyd-amaeth a Thwristiaeth	13
08	Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel	15
09	Olrhain Cynnydd y Prosiectau	17
10	Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf	19
	ATODIAD A - Crynodeb o Brosiectau y Cynllun Twf	20

01 CRYNODEB Y CYFARWYDDWR PORTFFOLIO

Ar 1 Ebrill, trosglwyddodd ein Tîm Rheoli Portffolio, y Cynllun Twf a'i gyllid i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, dan yr enw brand Uchelgais Gogledd Cymru. Bellach, mae'r Cynllun Twf yn cael ei oruchwyllo gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd, gan gymryd yr un rôl â'r Bwrdd Uchelgais Economaidd, ond ei fod yn eistedd yn strwythur llywodraethu ehangach y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Y chwarter hwn, gwnaed nifer o benderfyniadau i fwrw ymlaen ar garlam i gyflawni'r Cynllun Twf. Aeth y Swyddfa Rheoli Portffolio ati i gynnal Adolygiad Portffolio, gan ganolbwyntio ar bum prosiect a oedd wedi bod yn adrodd yn goch, ynghyd â phedwar prosiect oedd yn adrodd yn ambr. Cymeradwyodd yr Is-bwyllgor Lles Economaidd benderfyniad i:

- Dynnu dau brosiect yn ôl o'r Cynllun Twf, sef y prosiect Yr Ychydig % Olaf a'r prosiectau Ffibr Llawn.
- Tynnu prosiect Trawsfynydd yn ei ôl o'r Cynllun Twf, ac ychwanegu cynllun amgen i Drawsfynydd ar y Rhestr Wrth Gefn.
- Symud prosiectau Stiwdios Cinmel a H2-Newydd i'r rhestr wrth gefn.

Yn dilyn proses mynegi diddordeb gyda phartneriaid, cytunwyd yn Is-bwyllgor Lles Economaidd mis Mai i wahodd 17 o brosiectau i ymuno â'r Rhestr Wrth Gefn. Mae gwaith wedi cychwyn gydag arweinwyr y prosiectau wrth gefn a chyflwynir achosion busnes i'w cymeradwyo a dyraniad cyllid gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd.

Cytunodd yr Is-bwyllgor a'r ddwy Lywodraeth ar Broses Sicrwydd a Chymeradwyo wedi'i Lliflinio, gyda dull sy'n fwy seiliedig ar risg sy'n adlewyrchu dull y llywodraeth. Mae hyn yn golygu y gellir targedu adolygiadau sicrwydd at y prosiectau gyda'r risg uchaf a dyma lle y gallant gael yr effaith mwyaf..

Cymeradwyodd yr Is-bwyllgor Lles Economaidd ddau Achos Busnes Llawn, ar gyfer y prosiect 4G+ a'r prosiect Ynni Lleol Blaengar (sydd bellach yn cael ei alw'n Gronfa Ynni Glân). Hefyd, rhoddwyd cymeradwyaeth i Achos Cyfiawnhau Busnes Theatr Clwyd - rhan o'r Prosiect Rhwydwaith Talent Twristiaeth.

Cwblhawyd y cytundeb benthyciad ar gyfer prosiect Cydnerth yn swyddogol a chafodd ei lofnodi rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a Menter Môn, a phroseswyd y taliad benthyciad cyntaf.

Cafodd y Cynghorydd Mark Pritchard ei ethol yn Gadeirydd, a'r Cynghorydd Charlie McCoubrey ei ethol yn Is-gadeirydd ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r Is-bwyllgor Lles Economaidd.

Bu dau brif benodiad yn ystod y chwarter. Yn gyntaf, Dylan Williams, Prif Weithredwr Cyngor Ynys Môn i rôl SRO y Cynllun Twf ac fe gefais innau fy mhenodi fel Prif Weithredwr llawn amser cyntaf Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

Teimlaf yn freintiedig ac yn gyffrous i gael gweithio gyda gwleidyddion, cydweithwyr a phartneriaid talentog ac ymrwymedig i ganolbwyntio ar greu economi lewyrchus a ffyniannus i Ogledd Cymru.



Alwen Williams

**Cyfarwyddwr Portffolio
Uchelgais Gogledd Cymru**

02 DASHFWRDD CYFLAWNI PROSIECTAU

	Prosiectau Gweithredol (cyllid wedi neilltuo)	Wedi cymeradwyo ddim eto yn weithredol (cyllid wedi neilltuo)	Datblygu Achosion Busnes (cyllid wedi neilltuo)	O dan adolygiad (cyllid wedi glustnodi)	Rhestr wrth gefn (dim cyllid wedi glustnodi)
Nifer prosiectau	5	5	5	4	21
Dyraniad Cyllid Cynllun Twf (£234.85*)	£30.7m	£44.78m	£46.26m	£62m	£51.11m
Cyfanswm Buddsoddiad	£57.34m	£173.54m	£89.4m	£312.59m	£367.13**
Swyddi	608	366	781	1,472	733**

* Nid yw'r cyllid Cynllun Twf sy'n cael ei ddangos yma yn cynnwys £5.15m sydd wedi'i ddyrannu tuag at gostau'r Swyddfa Rheoli Portffolio

** Mae'r ffigyrau yn cynrychioli cydbwysedd y targed sydd i'w gyflawni gan y prosiectau ar y Rhestr Wrth Gefn

03 DASHFWRDD BUDDION

Swyddi Grewyd (Targed 4,000 o swyddi newydd)



Swyddi Newydd

38



Swyddi Adeiladwaith

TBC



Swyddi ddiogelwyd

TBC

Buddsoddiad (Targed: £1bn Cyfanswm Buddsoddiad)



Buddsoddiad Cynllun Twf

£22,637,764.04



Cyfanswm Buddsoddiad

£24,007,764.04



Refeniw wedi sicrhau

£4,786,470.24

Buddion ehangach

Incwm Cyfalaf wedi'i Drosoleddu

£81,016.80

Gofod Llawn wedi'i Ddatblygu

2,349m²

Patentau Newydd

12

Camau gweithredu i gryfhau cadwyni
cyflenwi lleol

15

Myfyrwyr yn cwblhau cymhwysterau

32

Unigolion sy'n cwblhau cyrsiau hyfforddi CPD

229

03 PERFFORMIAD Y RHAGLEN DDIGIDOL

Nod y Rhaglen

Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall Gogledd Cymru gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra gyda gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus.



Statws RAG	Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen
	- Cymeradwyodd yr Is-bwyllgor Lles Economaidd yr Achos Busnes Llawn ar gyfer y prosiect 4G+. Nawr bydd y gwaith o recriwtio i'r rolau Rheolwr Ymgysylltu yn dechrau, ynghyd â chaffael ar gyfer dylunio'r cynllun grant. - Mae'r Achos Busnes Llawn ar gyfer y prosiect Di-wifr Uwch wedi'i adolygu gan y PMO a bydd yn cael ei gyflwyno yn y chwarter nesaf, i gael ei ystyried gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd. - Mae'r caffael ar gyfer y pyrth LoRaWAN sydd eu hangen ar gyfer y prosiect LoRaWAN wedi'i baratoi a bydd yn cael ei wneud yn y chwarter nesaf. Derbyniwyd cynlluniau gweithredu drafft gan rai cyngorau ac mae rhagor i ddod.



Cyng. Nia Jeffreys
Aelod Arweiniol



David Fitzsimon
Uwch Berchennog
Cyfrifol



Stuart Whitfield
Rheolwr Rhaglen



Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)



Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)



Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

03 PERFFORMIAD Y RHAGLEN DDIGIDOL

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)		Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Canolfan Prosesu Signal Digidol Prifysgol Bangor		Prosiect yn cael ei gyflwyno	Prynu eitemau yn ymwneud â cham olaf arian y Cynllun Twf	Cyflwyno'r eitemau cychwynnol a gymeradwywyd yn yr achos cyfiawnhau busnes terfynol		Mae'r cyfnod olaf o brynu ar y gweill.
Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig Uchelgais Gogledd Cymru	4G+	Prosiect yn cael ei gyflwyno	Is-bwyllgor Lles Economaidd yn cymeradwyo Achos Busnes Llawn 4G+	- Caffael a dechrau dyluniad y cynllun grant - Recriwtio i rôl y Rheolwr Ymgysylltu		Paratowyd Achos Busnes Llawn 4G+ i'w ystyried gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd.
Campysau Cysylltiedig Uchelgais Gogledd Cymru	Di-wifr Uwch	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	Adolygiad y Swyddfa Rheoli Portffolio o Achos Busnes Llawn y prosiect Di-wifr Uwch.	Adolygiad yr Is-bwyllgor Lles Economaidd o'r Achos Busnes Llawn		Achos Busnes Llawn wedi'i adolygu a PMO ac wedi paratoi ar gyfer Is-bwyllgor Lles Economaidd y chwarter nesaf
	LPWAN	Prosiect yn cael ei gyflwyno	Cynlluniau defnydd LoRaWAN drafft i gael eu cyflwyno.	- Caffael pyrth LoRaWAN. - Cynlluniau defnydd LoRaWAN terfynol i gael eu cyflwyno.		Mae LPWAN yn bwrw ymlaen gyda chynllunio rhwydwaith a pharatoi'r caffael uwch a chyfalaf.

04 PERFFORMIAD Y RHAGLEN YNNI CARBON ISEL

Nod y Rhaglen

Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi.



Statws RAG	Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen
	- Cydnherth - wedi symud ymlaen i gyflawni ar ôl llofnodi'r cytundeb cyllido - Ynni Lleol Blaengar (Cronfa Ynni Glân) - Cymeradwywyd yr Achos Busnes Llawn gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd ac mae bellach yn paratoi ar gyfer lansio



Cyng. Gary Pritchard
Aelod Arweiniol



Dylan Williams
Uwch Berchennog
Cyfrifol



Meghan Davies
Rheolwr Rhaglen



Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)



Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)



Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

04 PERFFORMIAD Y RHAGLEN YNNI CARBON ISEL

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Cydnherth (Morlais) Menter Môn	Prosiect yn cael ei gyflwyno	- Wedi'i gwblhau'n derfynol ac wedi llofnodi'r cytundeb ariannu. - Prosiect wedi symud ymlaen i gyflawni.	- Taliad cyntaf yr arian wedi'i gynllunio ar gyfer mis Gorffennaf. - Monitro buddion.		Mae'r prosiect wedi symud ymlaen i gyflawni ac mae'n bwrw ymlaen yn dda.
Egni Prifysgol Bangor	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	- Mae Prifysgol Bangor wedi parhau i ddatblygu'r Achos Busnes Llawn. - Contract PCSA bellach wedi'i gwblhau'n derfynol a llofnodion contractwyr wedi'u trefnu.	- Parhau i ddatblygu'r Achos Busnes Llawn. - Bwrw ymlaen â cham 4 gwaith dylunio RIBA.		Mae'r prosiect yn ambr gyda rhywfaint o waith yn digwydd ar yr Achos Busnes Llawn wrth aros am benderfyniad ynghylch arian Porthladdoedd Rhydd Llywodraeth y DU.
Ynni Lleol Blaengar Uchelgais Gogledd Cymru	Wedi'i gymeradwyo ond ddim yn cyflawni ar hyn o bryd	- Achos Busnes Llawn wedi'i gymeradwyo. - Paratoi ar gyfer lansiad swyddogol y gronfa ar 10 Gorffennaf.	- Cronfa wedi'i lansio ac ar agor i ddatganiadau o ddiddordeb. - Digwyddiadau hyrwyddo ac ymgysylltiad. - Bwrw ceisiadau ymlaen draw i'r dyfarniad.		Mae'r prosiect yn wyrdd gan fod yr Achos Busnes Llawn wedi'i gymeradwyo.
Hwb Hydrogen Caergybi Menter Môn	Prosiect yn cael ei adolygu	- Uchelgais Gogledd Cymru a Menter Môn yn hyrwyddo'r prosiect mewn digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth a denu allbwytiau. - Trafodaeth barhaus rhwng Uchelgais Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net yn symud yn agosach at ganlyniad i sicrhau a throsglwyddo cronfeydd gwerth £4.8m Arian yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net.	- Cadarnhad posib ynghylch cyflwyniad ar y cyd gan Uchelgais Gogledd Cymru ac EDF i'r Adran Trafnidiaeth, ymgynghoriad cymorthdaliadau'r Rhwymedigaeth Tanwydd Cludiant Adnewyddadwy i ddatgloir cytundeb 'offtake'. - Cadarnhad posib gan DESNZ o ran £4.8m.		Mae'r statws RAG yn parhau'n goch a materion allweddol sy'n parhau yn cynorthwyo gyda'r datrysiaid: Rhwymedigaeth Tanwydd Cludiant Adnewyddadwy, Adran Trafnidiaeth; Yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net £4.8m.

05 PERFFORMIAD Y RHAGLEN TIR AC EIDDO

Nod y Rhaglen

Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai. Cyflawni gwelliannau sy'n symbylu buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo ym mhorthladd Caergybi a'r ardal ehangach. Hwyluso rhaglenni eraill drwy sicrhau bod y seilwaith tir ac eiddo cywir ar gael.



Statws RAG	Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen
	Warren Hall, Brychdyn - Mae Llywodraeth Cymru a'u hymgynghorwyr yn aros am gymeradwyaeth ffurfiol Airbus o'r adroddiad cydymffurfiaeth diogelwch maes awyr ar gyfer Warren Hall. Porth y Gorllewin, Wrecsam - Cyflwyno adroddiad Lite WeiTAG gan WSP gydag argymhelliad ynghylch sut i fwrw ymlaen gydag elfen cysylltedd priffyrdd prosiect Porth y Gorllewin. Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych - Cynnydd araf gyda'r Cytundeb A106, ac oediad amser yn y dogfennau gan arwain at gynnydd yn y costau ar y safle.



Ieuan Jones
Aelod Arweiniol



Andrew Farrow
Uwch Berchennog
Cyfrifol



David Mathews
Rheolwr Rhaglen



Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)



Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)



Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

05 PERFFORMIAD Y RHAGLEN TIR AC EIDDO

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Porth y Gorllewin, Wrecsam Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Prosiect yn cael ei adolygu	Mae'r adroddiad WELTaG Lite drafft wedi'i gyflwyno gan WSP i gael ei adolygu.	Cyflwyno adroddiad Lite WelTAG gan WSP gydag argymhelliad ynghylch sut i fwrw ymlaen gydag elfen cysylltedd priffyrdd prosiect Porth y Gorllewin.		Mae'r graddiad coch yn adlewyrchu sefyllfa'r prosiect o ran cael ei roi dan adolygiad wrth aros am asesiad o'r adroddiad WELTaG Lite a phenderfyniad y Cyngor a Llywodraeth Cymru ar p'un i fwrw ymlaen â'r prosiect.
Warren Hall, Brychdyn Llywodraeth Cymru / Uchelgais Gogledd Cymru	Prosiect yn cael ei adolygu	Rhannwyd yr adroddiad achos diogelwch Maes Awyr terfynol ym mis Mehefin 2025.	Airbus UK wedi cymeradwyo adroddiad ymgynghorydd Llywodraeth Cymru yn ffurfiol.		Sgôr risg y prosiect yn goch, wrth aros i'r achos diogelwch maes awyr gael ei asesu a'i gytuno'n llawn gan Airbus UK. Y sgôr hefyd yn adlewyrchu'r amserlen cyflawni bresennol a'r ansicrwydd ynghylch cyflwyno buddiannau.
Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Sir Ddinbych Jones Bros (Ruthin) Limited / Cyngor Sir Ddinbych	Wedi'i gymeradwyo ond ddim yn cyflawni ar hyn o bryd	- Cyfarfodydd cynnydd wythnosol yn eu lle rhwng Uchelgais Gogledd Cymru/Cyngor Sir Ddinbych a Jones Bros i sicrhau cynnydd gyda'r Gwaith Lliniaru Ecolegol a'r Gwaith Clirio Safle. - Ecolegydd Cyngor Sir Ddinbych wedi cytuno ar ddyluniad diwygiedig yr ysgubor ystlumod ac yn aros am gymeradwyaeth CNC. Mae disgwyl i'r contract ar gyfer y Gwaith Lliniaru Ecolegol gael ei gwblhau ym mis Gorffennaf.	- CNC i gymeradwyo dyluniadau diwygiedig yr ysgubor ystlumod ac mae disgwyl i'r contract ar gyfer y Gwaith Lliniaru Ecolegol ddod ym mis Gorffennaf 2025. - Cwblhau'n derfynol y trafodaethau ar gyfer y Gwaith Dymchwel ac Adfer Gwedd 1 rhwng y Cyngor a'u partner datblygu.		Mae'r sgôr risg yn parhau yn ambr yn sgil y cynnydd araf gyda'r Cytundeb A106, gan arwain at gynnydd yn y costau ar y safle a'r risgiau iechyd a diogelwch cynyddol ar y safle.

05 PERFFORMIAD Y RHAGLEN TIR AC EIDDO

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Parc Bryn Cegin, Bangor Llywodraeth Cymru / Uchelgais Gogledd Cymru	Wed'i gymeradwyo ond ddim yn cyflawni ar hyn o bryd	Oedi gyda'r broses tendro wrth aros am gyngor rheoli cymorthdaliadau, yn ddibynnol ar y cyngor hwn gall y gwaith caffael gychwyn ym mis Medi 2025. Mae'r trafodaethau rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru yn parhau ac rydym yn disgwyl eglurhad ynghylch y Rheolaeth Cymorthdaliadau yn amodol ar farn gyfreithiol annibynnol ar y cwestiwn o gymorthdaliadau ar gyfer cyllid y prosiectau.	- Hysbysiad llawn o gyfeiriad Cymorth Cymhorthdal. - Cwblhau'r Cytundeb Cyd-fenter. Dechrau Gwahoddiad i Dendro.		Cadw graddfa risg gwyrdd ar gyfer y prosiect gan ei fod ar y trywydd i gychwyn ar y safle ym mis Mawrth 2026. Disgwylir o hyd i'r amserlen adeiladu fod yn 12 mis.
Porth Caergybi Stena Line Ports Limited	Prosiect yn cael ei adolygu	Mae Stena wedi gofyn am oedi datblygiad y prosiect wrth ddisgwyl am ganlyniad eu trafodaethau masnachol gyda'r sector ynni ar y môr.	Ymgysylltiad parhaus ar Lefel Uwch Reolwyr rhwng Stena/Uchelgais Gogledd Cymru/Cyngor Sir Ynys Môn a Llywodraethau Cymru a'r DU i egluro bwriad Stena.		Mae'r sgôr risg yn dal yn goch gan fod angen cwblhau trafodaethau â defnyddiwr terfynol ardaloedd porthladd newydd cyn symud ymlaen.
Porth Wrecsam Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	Cais Cynllunio Amlinellol yn cael ei ddatblygu gan y Tîm Ymgynghorol. Y cynllun oedd i gyflwyno cyn-cais ym mis Mai, 2025, ond roedd angen rhagor o fanylion ynghylch asesiad treftadaeth yr orsaf. Disgwylir i'r cyn-cais gael ei gyflwyno ym mis Medi 2025 Ymgynghorwyr sefydlu safle yn rhoi cyngor i'r Cyngor.	- Y Cyngor yn datblygu Achos Busnes Amlinellol i gychwyn gyda phenodiad ymgynghorydd. - Cyflwyno cais Cynllunio Amlinellol. - Cynnydd pellach ar sefydlu'r safle yn cael ei ragweld.		Graddfa risg yn wyrdd wrth i'r prosiect symud ymlaen i gam Achos Busnes/Cynllunio Amlinellol. Cynnydd sefydlog yn cael ei gynnal.

06 PERFFORMIAD Y RHAGLEN BWYD-AMAETH A THWRISTIAETH

Nod y Rhaglen

Bydd y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth yn uchafu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant yng Ngogledd Cymru gan ddarparu cyfleusterau cefnogol i sicrhau bod gan y rhanbarth y sgiliau i ragori ac i fod gyda'r gorau yn y byd. Bydd y Rhaglen hefyd yn sicrhau ffyniant drwy fanteisio i'r eithaf mewn modd cynaliadwy ar ein hamgylchedd a'n tirwedd.



Statws RAG	Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen
	- Mae'r tîm prosiect Antur Gyfrifol wedi gwneud gwaith sylweddol i ymdrin â'r tri mater a godwyd gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd wrth gymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol. Mae'r tîm prosiect wedi gwella'r lefelau ymgysylltu gyda chymunedau lleol a rhanddeiliaid, yn cynnwys rhannu drafftiau o gynllun Buddion Lleol newydd. Cyflwynir cais am newid yng nghyfarfod nesaf yr Is-bwyllgor ym mis Hydref 2025. - Rhwydwaith Talent Twristiaeth Cymeradwywyd achos Cyfiawnhau Busnes Theatr Clwyd. Mae cynnydd yn cael ei wneud yn safle Portmeirion. Cam terfynol o lofnodi Memorandwm o Ddealltwriaeth gyda Snowdonia Hospitality and Leisure a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. - Mae Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon wedi cyflwyno'r Achos Cyfiawnhau Busnes ar gyfer yr Elfen Llaeth Defaid Cymru i'r bwrdd Rhaglen a Phortffolio, gyda'r ddau wedi'u hardystio. Mae'r ymarferiad caffael yn fyw ar GwerthwchiGymru ar gyfer yr elfen Llaeth Defaid Cymru.



Cyng. Charlie McCoubrey
Aelod Arweiniol



Sioned Williams
Uwch Berchennog
Cyfrifol



Elliw Hughes
Rheolwr Rhaglen



Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)



Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)



Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

06 PERFFORMIAD Y RHAGLEN BWYD-AMAETH A THWRISTIAETH

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Hwb Economi Gwledig Glynllifon Grŵp Llandrillo Menai	Wedi'i gymeradwyo ond ddim yn cyflawni ar hyn o bryd	- Y BJC drafft ar gyfer yr elfen Llaeth Defaid Cymru wedi'i awdurdodi yn amodol gan y Byrddau Rhaglen a Phortffolio. - Mae'r ymarferiad caffael ar gyfer yr elfen Llaeth Defaid Cymru yn fyw ar GwerthwchiGymru yn dilyn cymeradwyaeth gan y PMO a'r ariannwr. - Wedi ailymweld â'r Arfarniad Economaidd ar gyfer BJC Llaeth Defaid Cymru.	- Cymeradwyaeth yr is-bwyllgor Llesiant Economaidd i Achos Cyfiawnhau Busnes (BJC) Llaeth Defaid Cymru. - Cwblhau'r Caffael ar gyfer Llaeth Defaid Cymru. - Llaeth Defaid Cymru yn bwrw ymlaen i gyflawni. - Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer Datblygiad Llaeth Cynaliadwy. - Cyflwyno caniatâd cynllunio ar gyfer yr Hwb.		Sgôr ambr oherwydd cymeradwyo'r cais am newid i'r prosiect, dyma'r prif risgiau sydd wedi'u nodi: - Cynllunio ar gyfer yr Hwb - Y Broses Gaffael - Goblygiadau Ariannol costau cynyddol. - Amserlenni
Rhwydwaith Talent Twristiaeth Grŵp Llandrillo Menai	Prosiect yn cael ei gyflwyno	- Yr Achos Cyfiawnhad Busnes Theatr Clwyd wedi'i gymeradwyo. - Cyfarfod Cyflawni Partneriaeth. - Cyflwyno a Chymeradwyo hawliadau ariannol. pellach ar gyfer y prosiect. - Hawliadau wedi'u derbyn a'u hawdurdodi.	- Llofnodi Cytundebau Cyllido Grant cefn-wrth-gefn gyda ZipWorld. - Gwaith adeiladu cyfalaf parhaus ar y gweill. - Lansio'r brand Academi Croeso. Adrodd ar fuddion.		Sgôr ambr yn sgil nodi'r prif risgiau a ganlyn: - Cytundeb cefn-wrth-gefn heb eu llofnodi gyda'r sbocsen arall. - Cynnydd araf gyda'r sbocsen newydd.
Anturiaethau Cyfrifol ZipWorld	Datblygu'r Achos Busnes Llawn.	- Digon o weithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn cynnwys gweithdai, wedi'u cynnal. - Tîm y prosiect yn gweithio ar gynllun buddion cymunedol. - Cynllun sgiliau datblygu prosiect.	- Penderfyniad caniatâd cynllunio llawn i Swing. - Ymgysylltu pellach â'r gymuned. - Prosiect i gyflwyno cais i newid a chynnydd ar ofynion cymeradwyo'r OBC i'r is-bwyllgor Lles Economaidd. - Bydd y cais am newid hefyd yn cynnwys cais i gael gwared ar y rhwydwaith efws.		Ambr yn sgil y risgiau a ganlyn: - Newidiadau mewn prosiect. - Cael Caniatâd Cynllunio. - Pryderon y gymuned.

07 PERFFORMIAD Y RHAGLEN ARLOESI MEWN GWEITHGYNHYRCHU UWCH

Nod y Rhaglen

Cyfnwrthu lleoliad Gogledd Cymru fel clwstwr gweithgynhyrchu gwerth uchel pwerus ac arloesol, sy'n adeiladu ar arbenigedd presennol ac arbenigedd byd-eang i greu sail economaidd gwerth uwch, mwy amrywiol sy'n cefnogi trosglwyddo i economi carbon isel.



Statws RAG	Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen
	- Mae'r prosiect Canolfan Opteg a Pheirianeg Menter yn parhau i fwrw ymlaen yn dda. Mae'r gwaith adeiladu Plas Coch wedi'i gwblhau a threfnwyd digwyddiad dathlu'r lansiad meddal i bartneriaid cyflawni. Gellir adrodd am Werth Cymdeithasol Sylweddol ar gyfer y prosiect hyd yma. Mae'r gwaith o gaffael gweddill yr offer yn parhau, gyda pheth oedi yn codi o faterion contract. Yn OpTIC, mae angen arian ychwanegol fel bod modd bwrw ymlaen at gam nesaf y gwaith. - Mae'r prosiect Canolfan Biodechnoleg Amgylcheddol yn bwrw ymlaen yn dda, gyda chyfleusterau labordy yn Henfaes bellach wedi'u hadnewyddu'n llawn, gyda rhagor o offer i ddod. Mae ymweliad safle wedi'i gynllunio i drafod y safle a'r posibilrwydd o ychwanegu at y prosiect.



Cyng. David Hughes
Aelod Arweiniol

Tud. 39



Tony Ward
Uwch Berchennog
Cyfrifol



Elli Hughes
Rheolwr Rhaglen

- Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)
- Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)
- Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

07 PERFFORMIAD Y RHAGLEN ARLOESI MEWN GWEITHGYNHYRCHU UWCH

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Canolfan Opteg a Pheirianeg Menter Prifysgol Wrecsam	Prosiect yn cael ei gyflwyno	- Cwblhau gwaith adeiladu Plas Coch - lansio meddal i bartneriaid cyflawni. - Gweithgaredd cyfathrebu i ganolbwyntio ar y lansiad meddal. - Mae torrwr jet dŵr (bellach yn cael ei ariannu'n allanol), wedi cael ei archebu. Adroddiad cymeradwyo contract 'filament winder' bron â'i gwblhau. - Hawliad wedi'i awdurdodi.	- Cwblhau'r adroddiad arfarnu ar gyfer offer Plas Coch. - Cymeradwyo'r Cynllun Cyfiawnhad Busnes ar gyfer offer Plas Coch. - Dymchwel adeilad yn safle Plas Coch i gael tystysgrifau adeilad terfynol ar gyfer yr adeilad EEOC. - Cais am newid yn canolbwyntio ar OpTIC am arian ychwanegol wedi'i awdurdodi. - Cyfnod dylunio terfynol ar gyfer adnewyddu OpTIC. - Cais cynllunio labordy hydrogen wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo. - Trafodaeth panel yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar gyfer y prosiect.		Statws Gwyrdd - Prosiect yn cael ei gyflwyno ac ar y trywydd iawn. - Dim materion arwyddocaol yn y prosiect, prosiect yn bwrw ymlaen yn dda. Peth oedi gyda'r prosiect yn sgil cwblhau'r caffael/contract yn derfynol. - Mae angen gwneud cais am newid i adael i OpTIC symud i'r cam cyflawni yn y Flwyddyn Ariannol hon.
Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol Prifysgol Bangor	Prosiect yn cael ei gyflwyno	Cyfleusterau labordy wedi'u hadnewyddu'n llawn.	- Gweithgarwch caffael i gloi ar gyfer eitemau. - Cais am newid ar gyfer y tanwario sydd wedi'i nodi. - Ymweliad Safle:		Mae gan y prosiect sgôr RAG Gwyrdd: - Prosiect yn nesáu at gwblhau'r cam cyflawni. - Tanwariant wedi'i adnabod yn y prosiect a allai gysylltu â'r proffil hawliad, fodd bynnag, bydd unrhyw danwariant yn cael ei wario yn y flwyddyn ariannol hon.

08 OL-RHAIN CYNNYDD Y PROSIECTAU

Prosiect		Cam Caniatâd				Cam 1	Cam 2	Cam 3	Cam 4	Cam 5	Cam 6	Cam 7	Cam 8
		Y cyfnod cyn gwneud cais	Cynllunio amlinello l / Caniatâ d	Cynllunio llawn / Caniatâd	Amodau wedi'u gweithredu	Pennu cyd destun y Prosiect	Paratoir Achos Amlinellol Strategol	Paratoir Achos Busnes Amlinellol	Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol	Paratoir Achos Busnes Llawn	Approval of the Full Business Case	Y cyfnod cyn gwneud cais	Cynllunio amlinellol / Caniatâd
Canolfan Prosesu Signalau Digidol		Dim angen cynllunio				✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	
Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig Allweddol	4G+	Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau				✓	✓	✓	✓	✓	✓	🕒	
Campysau Cysylltiedig	LPWAN	Dim angen caniatâd				✓	✓	✓	✓	✓	✓	🕒	
	Do-wifr uwch	Dim gofynion caniatâd ar lefel y cynllun grant				✓	✓	✓	✓	✓	🕒		
Cydnherth (Morlais)		✓	✓	✓	🕒	✓	✓	✓	✓	✓	✓	🕒	
Egni		✓	✓	🕒		✓	✓	✓	✓	🕒			
Ynni Lleol Blaengar		Dim gofynion caniatâd ar lefel y gronfa				✓	✓	✓	✓	✓	✓	🕒	
Hwb Hydrogen Caergybi		✓	✓	🕒		Prosiect yn cael ei adolygu							
Porth Caergybi, Ynys Môn		✓	✓	✓	🕒	Prosiect yn cael ei adolygu							
Cyn Ysbyty Gogledd Cymru		✓	✓	✓	🕒	✓	✓	✓	✓	✓	✓	🕒	
Porth y Gorllewin, Wrecsam		🕒				Prosiect yn cael ei adolygu							
Neuadd Warren, Brychdyn		🕒				Prosiect yn cael ei adolygu							
Parc Bryn Cegin, Bangor		✓	✓	🕒		✓	✓	✓	✓	✓	✓	🕒	
Porth Wrecsam		🕒				✓	✓	🕒					
Hwb Economi Wledig Glynllifon		🕒				✓	✓	✓	✓	🕒			
Rhwydwaith Talent Twristiaeth		✓	✓			✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	
Anturiaethau Cyfrifol		🕒				✓	✓	✓	✓	🕒			
Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol		✓	✓	✓		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	
Canolfan Opteg a Pheiranneg Menter		✓	✓	✓	🕒	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	

09 TRACIWR AMCANION – TROSOLWG O GYFLAWNI

			Targedau Achos Fusnes Portffolio 2024		Targedau Achosion Busnes y Prosiectau sydd			Gwir	
			Swyddi a grëwyd (net)	(EM) Cyfanswm Buddsoddiad*	OBC/ FBC*	Swyddi a grëwyd (net)	(EM) Cyfanswm Buddsoddiad*	Swyddi a grëwyd (net)	(EM) Cyfanswm Buddsoddiad*
Digidol	Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP)		33	2.96	FBC	40	2.96	19	2.15
	Safleoedd a Choridorau	4G+	82	10.04	FBC	29	£10.15	0	0
	Campysau Cysylltiedig	LPWAN	20	39.04	BJC	20	1.14	0	0
		Di-wifr Uwch	165		OBC	200	37.6	n/a	n/a
Ynni Carbon Isel	Cydnherth (Morlais)		233	13.87	FBC	230	13.8	3	5.36
	Egni		49	3.94	OBC	49	3.94	n/a	n/a
	Ynni Lleol Blaengar		177	102.00	FBC	193	70	0	0.00
	Hwb Hydrogen Caergybi		20	28.77	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a
Tir ac Eiddo	Porth y Gorllewin, Wrecsam		360	43.36	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a
	Warren Hall, Brychdyn		445	69.76	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a
	Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych		70	94.70	FBC	70	74.34	0	0
	Parc Bryn Cegin, Bangor		47	6.62	FBC	54	17.91	n/a	n/a
	Porth Caergybi		647	170.70	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a
	Porth Wrecsam		150	14.37	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a
Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth	Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon		92	16.79	OBC	92	16.79	n/a	n/a
	Rhwydwaith Talent Twristiaeth		68	19.03	FBC	68	19.03	0	2.3
	Anturiaethau Cyfrifol		175	12.40	OBC	290	16.7	n/a	n/a
Arloesi mewn Gweithygynhyrchu Uwch	Canolfan Opteg a Pheirianeg Menter		78	18.12	FBC	90	18.12	2	10.74
	Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol		65	3.46	BJC	180	3.46	7	1.48
Cyfanswm Portffolio Cynllun Twf				5.15			5.15	7	1.98
Growth Deal Portfolio Total			Targedau		4 OBC 10 FBC	Wedi gymeradwyo		Cyflawni	
			3,576	1,123		1,605	302.09	38	24.01

* Cyfanswm buddsoddiad a ddengys yma yn cynnwys costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio ond nid y rhestr prosiectau wrth gefn
FBC - Achos Busnes Amlinellol, FBC - Achos Busnes Llawn
Mae'r data yn cynnwys gwybodaeth gymeradwy OBC ac FBC.

12 PROSIECTAU'R CYNLLUN TWF: PROFFIL DYRANIAD CYLLID CYFALAF

Rhaglen	Prosiect	Ariannwr y Prosiect	Proffil 24/25 (£m)	YTD Gwirioneddol	Amrywiad (£m)*	Rhesymeg
